



AIL-GYFLOGAETH

AIL-GYFLOGAETH CYN YMDDEOL

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod y gallai cyn-weithwyr fod yn dymuno dychwelyd i gyflogaeth gyda'r sefydliad. Pryd bynnag y bydd swyddi gwag yn cael eu hysbysebu fel rhan o broses recriwtio, bydd ceisiadau gan gyn-weithwyr yn cael eu hystyried:

- fel rhan o broses gystadleuol;
- fesul achos, yn dibynnu ar y rôl y gofynnir amdano ac amgylchiadau'r unigolyn.

Ni fydd ceisiadau gan gyn-weithwyr yn derbyn triniaeth ffafriol.

Fodd bynnag, gall y Gwasanaeth ystyried ei bod yn amhriodol ailgyflogi cyn-weithwyr mewn ystod o amgylchiadau, gan gynnwys y rhai lle mae'r gweithwyr:

- wedi cael eu diswyddo;
- wedi gadael y Gwasanaeth o dan dorri contract;
- wedi ymddiswyddo yn ystod ymchwiliad gallu neu ddisgyblu;
- wedi derbyn iawndal ariannol am ddod â'u cyflogaeth flaenorol i ben yn gynamserol, e.e. diswyddo;
- wedi derbyn iawndal ariannol o'u cyflogaeth flaenorol yn y sector cyhoeddus o fewn mis i'r cais gael ei gyflwyno. Gallai hyn gynnwys taliadau a wneir o dan gynllun taliadau ymadael y sector cyhoeddus ac o dan reoliadau pensiwn.

Yn ôl disgrisiwn y Gwasanaeth, gellir tynnu'n ôl ceisiadau gan weithwyr blaenorol o broses recriwtio a dethol y maent wedi'u cyflwyno ar ei chyfer.

Bydd parhad y gwasanaeth cyflogaeth yn cael ei adolygu a'i gadarnhau fel un sy'n unol â deddfwriaeth cyflogaeth. Bydd toriad o fwy nag wythnos yn arwain at barhad cyflogaeth yn cael ei dorri, ac ni fyddai gwasanaeth blaenorol yn cael ei gyfrif tuag at unrhyw gyflogaeth ddilynol.

Cyfrifoldeb y gweithiwr ydyw:

- i gael gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw rwymedigaethau pensiwn neu drethiant cyn derbyn unrhyw gynnig cyflogaeth neu o ganlyniad i newidiadau yn ystod cyflogaeth;
- sicrhau bod unrhyw rwymedigaethau treth a allai godi yn cael eu talu a'u trin yn briodol.

AILGYFLOGAETH AR ÔL YMDDEOL

Os yw gweithwyr wedi ymddeol o rôl o fewn y Gwasanaeth, waeth beth fo'u hamgylchiadau cyflogaeth neu fath dyletswydd y rôl y maent wedi'i gadael neu y maent am gael eu hailystyried ar ei chyfer, rhaid i'r Gwasanaeth a'r gweithiwr ystyried goblygiadau unrhyw rwymedigaethau pensiwn neu drethiant.

'Lleihau' yw'r broses o leihau neu atal pensiwn aelod o'r cynllun os yw'r person hwnnw'n ymddeol ac wedi hynny yn dychwelyd i weithio i'r Gwasanaeth. Dylid lleihau taliadau pensiwn:

- os yw aelod o'r cynllun yn cael ei ailgyflogi gan y Gwasanaeth; ac
- Mae'r unigolyn hwn yn derbyn pensiwn a chyflog sy'n fwy nag enillion y person hwnnw cyn ymddeol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau gwybodaeth sy'n cwmpasu'r maes pwnc hwn; mae dolenni i'r holl ddogfennau ar gael trwy glicio yn ôl i'r hafan.

Os daw unrhyw hepgoriadau neu wallau i'r amlwg o ran cynnwys y gyfres hon o ddogfennau, gwahoddir darllenwyr i gysylltu â policy.development@tangogleddcymru.llyw.cymru gyda'u hadborth.

Argymhellir adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd; fodd bynnag, efallai y bydd angen ei adolygu'n gynharach yng ngoleuni unrhyw newid rheoleiddiol sy'n dod i rym yn y cyfamser.

Perchennog (Adran)	Adnoddau Dynol	Fersiwn	1.0
Adolygwyd ddiwethaf gan (deiliad post)	Pennaeth Adnoddau Dynol	Dyddiad adolygu diwethaf	7 ^{fed} Rhagfyr 2023
		Dyddiad adolygu a argymhellir	7 ^{fed} Rhagfyr 2026